

No.

CABINET

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S.D. Perkes, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd Dr. I.J. Johnson, C. Stallard and N.C. Thomas.

C138 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd bob plaid i gyfarfod y Cabinet gan atgoffa pawb oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd a chaiff y recordiad hwn ei archifo ar gyfer gwylio yn y dyfodol.

Gofynnodd i'r holl gyfranogwyr 'fudo' eu hunain pan nad oeddent yn siarad er mwyn osgoi unrhyw sŵn cefndir pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, a dywedodd, pe bai cyfranogwyr yn dymuno siarad, y dylent godi eu llaw (i gael eu gweld ar y sgrîn) neu ddefnyddio'r swyddogaeth 'codi llaw'.

Gofynnwyd i'r Aelodau sicrhau bod pob trafodaeth ar lafar ac nid trwy'r swyddogaeth 'sgwrsio' er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrsio' i dynnu sylw at unrhyw faterion technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu Swyddog y Gwasanaethau Democraidd.

C139 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref, 2023 fel cofnod cywir.

C140 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

C141 Y DIWEDDARAF AR CHWARAEON A CHWARAE 2022/23 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol ar 9 Hydref 2023.

No.

Cyfeiriodd y Cynghorydd John at y sylwadau a wnaed gan Reolwr Gweithredol y Gwasanaethau Cymdogaeth, Byw'n Iach a Pherfformiad a chyflwynodd y Prif Swyddog Byw'n Iach a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am weithgareddau a gweithrediadau presennol Adran Chwaraeon a Chwarae'r Cyngor. Croesawodd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad ac ar ôl i nifer o gwestiynau gael eu gofyn, llongyfarchodd y Cadeirydd a'r Aelodau y Swyddogion.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2023 ynghylch Adroddiad Diweddariad Chwaraeon a Chwarae 2022/23 yn cael eu nodi.

(2) BOD Adroddiad Diweddariad Chwaraeon a Chwarae 2022/23 yn cael ei ddosbarthu i'r holl Aelodau Etholedig er gwybodaeth.

Y rheswm dros y penderfyniad

(1-2) Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C142 CRYFHAU EIN CYMUNEDAU A'N GWAITH I DRECHU TLODI A'R ARGYFWNG COSTAU BYW PRESENNOL (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2023.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Pwyllgor wedi ystyried pedwar adroddiad Archwilio Cymru, ac roedd pob un ohonynt yn hynod bwysig ac yn cynnwys trafodaethau parhaus am berthnasau gyda'r Trydydd Sector a oedd wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf. Bu ymholiad ynghylch effaith cynnydd yn y Dreth Gyngor a'r argyfwng costau byw; dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn ymwybodol iawn o'r pwysau ar drigolion lleol ac felly roedd unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor wedi cael ei gadw i lai na hanner cyfradd chwyddiant, gan gadw'r gyfradd mor isel â phosib tra parhau'n ymwybodol o'r angen i ddarparu gwasanaethau. Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at waith datblygu cymunedol a diolchodd i'r lluo o sefydliadau a oedd wedi darparu manau 'Croeso Cynnes' i'w cymunedau y llynedd a dywedodd fod llawer yn gwneud yr un peth eto eleni.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD– BOD sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C143 ADRODDIAD HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT TERFYNNOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2022/23 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 23 Hydref 2023.

Dywedodd yr Arweinydd y bu trafodaeth fanwl yn y cyfarfod, gan gynnwys sylw bod yr adroddiad yn eithaf hygyrch mewn perthynas â swm y wybodaeth ynddo, ond mewn cyfarfod Pwyllgor blaenorol dywedwyd bod yr adroddiad yn gymhleth ac yn anodd ei ddarllen, a oedd yn fater i'w ystyried.

O ran adolygu dull Hunanasesu'r Cyngor, nodwyd nifer o feysydd a byddai dogfen grynhoi gyhoeddus i'w dosbarthu'n eang yn cael ei chynhyrchu fel rhan o'r gwaith ymgysylltu a oedd wedi cael ei lywio gan adborth gan drigolion a hefyd Aelodau o fewn Pwyllgorau ar sut yr hoffent i Wybodaeth Hunan-Berfformiad y Cyngor gael ei hadrodd, gallai hynny gynnwys fersiwn hawdd ei ddarllen o'r adroddiad a hefyd postiau byr ar y cyfryngau cymdeithasol.

Cafwyd trafodaeth hefyd o ran a ddylid cynnwys Brexit yn yr asesiad ar gydbwysedd ai peidio, penderfynwyd y dylid dileu cyfeiriad o'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y drafodaeth ynghylch cyfarfodydd hybrid a dywedodd ei bod yn parhau'n un o ddyheadau'r Cyngor i ymgorffori ein defnydd o'r dechnoleg cyfarfodydd hybrid integredig i wella cyfranogiad mewn democratiaeth leol yn unol â'n blaenoriaethau cyfranogiad cyhoeddus a oedd yn parhau'n faes ffocws allweddol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Williams at y sefyllfa heriol o ran gosod cyllideb a fyddai'n destun llawer o drafod dros y misoedd nesaf ac roedd yn edrych ymlaen at drafodaeth adeiladol yng nghyfarfod y Cyngor Llawn.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD yr argymhellion o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 23 Hydref 2023 yn cael eu cymeradwyo a bod Adroddiad Hunanasesu Blynyddol Drafft Terfynol Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer 2022/23 yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar yr argymhellion hynny.

(2) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at gyfarfod y Cyngor Llawn ar 20 Tachwedd 2023 i'w hystyried a'i gymeradwyo.

Y rheswm dros y penderfyniad

(1-2) Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C144 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD BRO MORGANNWG 2021-2036 CYTUNDEB CYFLAWNI DIWYGIEDIG A STRATEGAETH A FFEFRIR DDRAFFT (YCCGR) (CRAFFU – AMGGYLCHEDD AC ADFYWIO) -

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Cytundeb Cyflawni diwygiedig i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru a chymeradwyo Strategaeth a Ffefrir Ddrafft y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Dywedodd yr Arweinydd fod Aelodau'r Cabinet yn edrych ymlaen at y digwyddiadau ymgynghori a chlywed barn pobl ar y cynigion.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) BOD cynnwys yr adroddiad a'r goblygiadau ar gyfer amserlen y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cael eu nodi.
- (2) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio i'w ystyried. Os na fydd y Pwyllgor yn codi unrhyw faterion pellach i'w hystyried gan y Cabinet, bod yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo i'w gyfeirio i Gyfarfod Arbennig y Cyngor Llawn ar 20 Tachwedd 2023 ar gyfer:
 - a) cymeradwyo Cytundeb Cyflawni diwygiedig y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru iddi ei gymeradwyo'n ffurfiol.
 - b) cymeradwyo Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.
- (3) Ar ôl i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni diwygiedig, BOD copïau ar gael i'w harchwilio ym mhrif swyddfa'r Cyngor yn ystod oriau swyddfa arferol ac yn cael cyhoeddi ar wefan y Cyngor.
- (4) BOD yr unigolion a'r sefydliadau hynny yr ymgynghorwyd â nhw yn flaenorol ar ddrafftio'r Cytundeb Cyflawni cymeradwy yn cael gwybod am y diwygiadau a nodir yn yr adroddiad.
- (5) Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Lleoedd a/neu'r Pennaeth Datblygu Cynaliadwy i wneud unrhyw ddiwygiadau teipograffig pellach neu fân ddiwygiadau eraill i'r Cytundeb Cyflawni diwygiedig fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru ac i'r Strategaeth a Ffefrir ddrafft.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Rhoi gwybod i'r Cyngor am y cynnydd a wnaed ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

No.

- (2) Cymeradwyo'r diwygiadau i Gytundeb Cyflawni diwygiedig y Cyngor (Tachwedd 2023) a galluogi ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth a Ffebrir Ddrafft yn unol â Rheoliad 15 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd).
- (3) Cydymffurfio â Rheoliad 9 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd).
- (4) Rhoi gwybod i randdeiliaid a sefydliadau yr ymgynghorwyd â nhw'n flaenorol ar y Cytundeb Cyflawni am y diwygiadau arfaethedig i amserlen y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.
- (5) Gwneud newidiadau teipograffig neu fân newidiadau yn ôl yr angen heb fod angen ceisio cymeradwyaeth y Cabinet neu'r Cyngor Llawn.